# Cenn@d

MEHEFIN 2 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 14


## *Cofio Euros*: gwahoddiad i gyfarfod lansio cyfrol arbennig i gofio am Euros Wyn Jones

Ergyd drom i'w deulu a'i gydnabod oedd marwolaeth gwbl annisgwyl y Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni, ddiwedd Tachwedd 2018. Ac yntau'n weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist ers 1977 ac yn athro a hyfforddwr i bregethwyr a gweinidogion ers 1992, yr oedd iddo gylch eang o gyfeillion a chydnabod a frawychwyd gan y newydd am ei farwolaeth. Heb unrhyw rybudd, cymerwyd ef oddi wrthym o ganol ei gyfrifoldebau teuluol a phrysurdeb ei waith.

Wrth ei goffáu, mae John Pritchard, golygydd y gyfrol, yn ei deyrnged angladdol iddo'n cloi drwy ddweud:


> Dyn pobl oedd Euros, yn mwynhau cwmnïaeth, boed wrth ei waith, ymhlith cyfeillion, neu ar y cae criced yn nyddiau Henllan Amgoed: cymeriad hwyliog a fedrai chwerthin yn braf; cwmnïwr diddan, a'i sgwrs wastad yn ddifyr. Gallai drafod pethau mawr a bach, ond fyddai pethau sylweddol a phethau'r Ffydd a'r Efengyl fyth yn bell o'i feddwl a'i sgwrs. Roedd ganddo ofal mawr am aelodau ei eglwysi, ei gymdogion, ei ffrindiau, a'i gydnabod; a bu'n garedig a chymwynasgar ac yn ffrind da i'w gymdogion ar hyd y blynyddoedd.

Mae Densil Morgan hefyd yn crynhoi ei atgofion:

> Bydd ei gyfoeswyr colegol yn cofio am gadernid ei bersonoliaeth, am ei ddiwydrwydd fel myfyriwr ac am bendantrwydd athrawiaethol a aeth law yn llaw â dynoliaeth iach. Bydd gan ei gyd-weinidogion eu hatgofion am deyrngarwch sefydliadol a oedd y tu hwnt i'r cyffredin, tra bydd ei gyd-academyddion yn cofio amdano'n ymhyfrydu mewn ysgolheictod clasurol ac yn gwerthfawrogi'n fawr oludoedd dysg. Prin fod yna weinidog arall yn ei genhedlaeth a gymerodd ddiwinyddiaeth Gristnogol gymaint o ddifrif, gan bwysleisio'i phwysigrwydd a mawrygu ei harwyddocâd. Athro a dehonglwr ydoedd yn y pulpud, yn yr ystafell ddosbarth ac yn ei weithiau cyhoeddedig, gyda'i farw annhymig yn gadael bwlch rhwth ar ei ôl. Braint oedd cael ei gyfrif yn gyfaill. Mae'r hiraeth yn parhau.

Meddai Beti-Wyn James:

> Cofiaf Euros fel athro a ffrind da, ac fel gŵr â pharch ganddo tuag at eraill: gŵr hynaws ac annwyl a wisgai wên fawr lydan, ond gŵr cadarn ei ffydd a'i argyhoeddiad yng Nghrist ei Waredwr. Roedd ganddo gymaint mwy i'w gynnig, ond diolchwn am yr hyn a gawsom. Hiraethwn ar ei ôl, gan




> dreial yn galed iawn i beidio ag aros gyda'r meddylfryd fod ein bywydau yn dlotach o lawer hebddo, ond yn hytrach ddiolch am ba mor gyfoethog y mae'n bywydau, yn arbennig bywydau ei fyfyrwyr, o fod wedi ei gael. Bydded i fywydau Euros a'i debyg a aeth o'n blaen fod yn ysbrydoliaeth i ni o ran y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau heddiw.

Cyfeiria Dewi Myrddin Hughes ato fel pregethwr grymus, gan grynhoi, 'I Euros, roedd pregethu'r "Gair a roddwyd un waith i'r saint" yn hanfodol, doed a ddelo. Tasg hanfodol yw cyhoeddi'r hyn a wnaeth Duw yn Iesu Grist. Yn ei ysgrif goffa i Euros ym Mlwyddiadur Undeb yr Annibynwyr, cyfeiria John Pritchard at ei Galfiniaeth ddiysgog: 'Ar y graig honno y safodd Euros, a chafodd nerth i ddal ati trwy law a hindda.'

(parhad ar y dudalen nesaf)


Y Cefnogwyr a'r Cyfnerthwr
Tudalen 4

Annwyl Olygydd
Tudalen 5

Ffrydiau melys iawn ...
Sasiwn Cenhadol Rhithiol Chwiorydd y De
Tudalen 7

## Cofio Euros

*(parhad o dudalen 1)*

Gan mai dyn y llyfrau oedd Euros bu i sawl un grybwyll mai da o beth fyddai cael cyfrol i'w goffáu. Diolch i'w ffrind agos, John Pritchard, am fynd ati i wireddu hynny, ac am ei waith yn saernïo'r gyfrol, gan wahodd cyfranwyr sy'n cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd a gwaith Euros. A diolch i bawb a gyfrannodd at y gyfrol: mae'r cyfan yn tystio i gymeriad arbennig ac unigryw Euros. Diolch hefyd i Gari Wyn, perchennog Ceir Cymru, am ei nawdd ariannol at gyhoeddi'r gyfrol. Yr ysgogiad cyntaf i fynd ati i'w pharatoi oedd clywed iddo ddweud wrth Lowri, yn fuan wedi marwolaeth Euros, 'Mae'n rhaid cael cyfrol i gofio dy dad.' Diolch am yr anogaeth, y diddordeb a'r nawdd.

Meddai Aled Davies:

> Braint arbennig i Gyhoeddiadau'r Gair oedd derbyn y gwahoddiad i gyhoeddi'r gyfrol hon. Am chwarter canrif a mwy bu Euros yn gefnogwr a chyfrannwr cyson i waith cyhoeddi'r wasg, ac mae ein dyled yn fawr iddo am y gefnogaeth gyson honno. Roedd yn mwynhau ysgrifennu, yn mwynhau cyhoeddi ac yn mwynhau bod yn rhan o'r holl broses olygyddol, gan gymryd diddordeb byw ym mhob rhan o'r broses. A mwy na hynny hefyd, roedd ganddo ddiddordeb wedi i'r cyfrolau weld golau dydd a byddai'n eu cario o sesiwn hyfforddi i Gwrdd Chwarter er mwyn eu gwerthu i selogion yr eglwysi. Cytunodd i baratoi mwy nag un esboniad ar gyfer dosbarthiadau oedolion ein hysgolion Sul a chafodd y cyfrolau hynny dderbyniad gwresog iawn. Aeth ati i gyfieithu 'Cwrs Emaus', sef dwy ffeil enfawr oedd yn cynnwys dros 30 o sesiynau ynghylch bod yn ddisgybl i Iesu Grist.
>
> Cafwyd ganddo hefyd y gyfrol *Blas ar Gristnogaeth Cymru*, gwaith ei brifathro yng Ngholeg Bala–Bangor, R. Tudur Jones, gyda phennod ar hanes diweddar Cristnogaeth yng Nghymru wedi ei hychwanegu gan Euros ei hun. Un dyfyniad ganddo yn y gyfrol yw: 'I ymateb i her y newid mawr sydd ar droed yng nghymunedau Cymru mae galw am arfogi meddwl pobl nid yn unig yn y Beibl a'i neges ond hefyd yng nghyfoeth yr etifeddiaeth sydd gennym fel Cristnogion yng Nghymru ... pa fath o ddiwylliant fydd crefydd y Gymru newydd yn ei gynhyrchu a pha fath o ffurfiau a strwythurau fydd eu hangen i roi mynegiant i hynny?' Fe hoffodd Euros ddiwyg a fformat y gyfrol honno. Roedd wedi bwriadu paratoi cyfrol arall gyffelyb fel rhan o gyfres, sef *Blas ar Athrawiaeth Gristnogol*, ond gwaetha'r modd ni chafodd gyfle i wireddu'r freuddwyd honno. Efallai y gwêl rhywun arall yn dda yn y dyfodol i gydio yn y prosiect hwnnw.
>
> Mae ein diolch i Euros yn sylweddol iawn. Diolch am ei egni, ei frwdfrydedd, ei hynawsedd a'i gariad at bopeth ynglŷn ag achos Iesu Grist.




Y tu allan i Gapel Smyrna, Llangefni, 2016




Cyfarfod cyhoeddi'r gyfrol *Blas ar Gristnogaeth Cymru*, Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 2018.

Mae Sion Aled yn crynhoi ei gyfraniad yn yr englyn hyfryd hwn:

O durio i ddyfnderoedd – athrawiaeth
a throi ei goludoedd
yn hyder i laweroedd,
athro dan un Athro oedd.

LANSIAD LLYFR

*Nos Iau 8yh*
*24ain o Fehefin 2021*

Mae'n bleser gan Cyhoeddiadau'r Gair eich gwahodd i noson lansio rhithiol


**Cyfrol Goffa i Euros Wyn Jones**

*Cofio Euros*: cyfrol wedi ei golygu gan John Pritchard.

CYHOEDDIADAU'R GAIR

**ZOOM: 886 7338 1723**

**Mwy o wybodaeth:**
aled@ysgolsul.com | 01766 819120




*Bydd cyfle ar y noson hefyd i archebu copi ar lein gyda chludiant am ddim.*